Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Gwella 2015-16: Adolygiad o Ddull Strategol y Cyngor o Reoli Asedau

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf


**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 652A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, sy'n cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tim Buckle (Arweinydd Archwilio Perfformiad) ac Alison Lewis (Archwilydd Perfformiad).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Mae'r Cyngor wedi dechrau cymell ei gymunedau i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli asedau'r Cyngor yn y dyfodol, ond mae lle i gryfhau'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch perfformiad er mwyn gwella'r modd y caiff goruchwyliaeth a phenderfyniadau ynghylch rheoli asedau eu cefnogi | 4 |
| Mae gan y gwaith o reoli asedau broffil uchel a chaiff ei hybu ar lefel strategol yn y Cyngor | 4 |
| Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r uwch-dîm rheoli yn ddiweddar wedi cryfhau prosesau gweithio corfforaethol mewn perthynas â rheoli asedau | 5 |
| Mae dull rhagweithiol y Cyngor o weithredu'n cynnwys cymell cymunedau i ymwneud â'r broses o drosglwyddo asedau a darparu gwasanaethau | 6 |
| Nid yw'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch perfformiad yn rhoi darlun cynhwysfawr i aelodau etholedig ac aelodau'r uwch-dîm rheoli corfforaethol o'r modd y caiff asedau'r Cyngor eu rheoli | 6 |
| Cynnig ar gyfer gwella | 7 |

# Adroddiad cryno

## Mae'r Cyngor wedi dechrau cymell ei gymunedau i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli asedau'r Cyngor yn y dyfodol, ond mae lle i gryfhau'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch perfformiad er mwyn gwella'r modd y caiff goruchwyliaeth a phenderfyniadau ynghylch rheoli asedau eu cefnogi

**1.** Yn ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013-2018 mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn cydnabod mai ei gost unigol fwyaf, ar wahân i gostau staff, yw'r gost sy'n ymwneud â bod yn berchen ar eiddo a'i redeg.

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein hadolygiad o ddull strategol y Cyngor o reoli asedau. Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn rhan o'n hasesiad gwella yn ystod 2015-16, ac roedd yn cynnwys archwilio'r cynlluniau, y strwythurau a'r prosesau sy'n cynorthwyo'r gwaith o reoli asedau'r Cyngor, yn ogystal â chysylltiadau â threfniadau corfforaethol allweddol eraill megis prosesau'r Cyngor ar gyfer rheolaeth ariannol a chynllunio gwelliant. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth i drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ogystal â threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad asedau.

**3.** Er mwyn adolygu dull y Cyngor o reoli ei asedau'n strategol, bu i ni ofyn y cwestiwn '**A yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli asedau'n cefnogi penderfyniadau a gwelliant cadarn ac effeithiol?**'. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi dechrau cymell ei gymunedau i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli asedau'r Cyngor yn y dyfodol, ond bod lle i gryfhau'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch perfformiad er mwyn gwella'r modd y caiff goruchwyliaeth a phenderfyniadau ynghylch rheoli asedau eu cefnogi.

**4.** Ceir crynodeb o'n canfyddiadau isod.

### Mae gan y gwaith o reoli asedau broffil uchel a chaiff ei hybu ar lefel strategol yn y Cyngor

**5.** Mae gan y gwaith o reoli asedau broffil uchel yn y Cyngor, a chaiff ei hybu'n weithredol gan arweinwyr gwleidyddol ac uwch-dîm rheoli'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013-2018 sy'n ategu Cynllun Gwasanaethau Tymor Canolig y Cyngor. Caiff y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ei ddiweddaru'n flynyddol ac adroddir yn ei gylch wrth y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Fodd bynnag, mae ansawdd y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau sy'n ategu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn amrywiol.

**6.** Mae gan y Cyngor strategaeth glir ynghylch swyddfeydd, sy'n seiliedig ar leihau nifer y swyddfeydd y mae eu hangen. Mae strategaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar nifer lai o safleoedd strategol penodedig, ac mae'n ffafrio bod yn berchen ar asedau yn hytrach na'u cymryd ar brydles. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yn bwysig sicrhau cydnawsedd polisïau a chynlluniau cysylltiedig ym maes Adnoddau Dynol a TG er mwyn cefnogi'r strategaeth hon sy'n datblygu, er enghraifft yng nghyswllt unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â threfniadau gweithio hyblyg. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i leoli rhai o staff y cyngor gyda staff asiantaethau eraill.

## Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r uwch-dîm rheoli yn ddiweddar wedi cryfhau prosesau gweithio corfforaethol mewn perthynas â rheoli asedau

**7.** Mae prosesau gweithio corfforaethol mewn perthynas ag asedau wedi'u cryfhau yn ddiweddar yn dilyn ailstrwythuro'r uwch-dîm rheoli, ac mae atebolrwydd clir am reoli asedau wedi'i bennu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

**8.** Mae gan y Cyngor Weithgor Rheoli Asedau Corfforaethol sy'n cael ei gadeirio gan swyddogion o'r adran ystadau ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol feysydd gwasanaeth. Mae'r gweithgor hwn yn cydlynu gweithgarwch sy'n ymwneud ag asedau ar draws y Cyngor. Mae gan y gweithgor gylch gorchwyl clir ac mae'n cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'r Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol yn darparu dull o rannu gwaith dysgu ar draws y sefydliad, er enghraifft y 'Monitor Risg' (sef system i gofnodi data'n ymwneud â rheoli asedau) a ddefnyddiwyd yn wreiddiol gan Wasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant ac sydd bellach wedi'i fabwysiadu ar lefel gorfforaethol. Mae'r Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol yn esblygu o ran ei rôl ac mae llawer o elfennau cadarnhaol yn perthyn iddo, ond gellid ei gryfhau ymhellach pe bai mwy o gysondeb ymhlith y swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd a phe bai'r holl adrannau'n cael eu cynrychioli gan uwch-swyddogion.

**9.** Soniodd rheolwyr gwasanaeth am y cydberthnasau gwaith cadarnhaol ac effeithiol sy'n bodoli rhwng y tîm ystadau canolog ac adrannau gwasanaeth. Caiff rhaglen ysgolion yr 21$^{ain}$ ganrif ei gweithredu'n effeithiol drwy bartneriaeth rhwng y gwasanaeth ystadau a'r gwasanaeth addysg.

**10.** Caiff rhai elfennau o gyllidebau'r Cyngor ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ei dal yn ganolog, gyda rhai agweddau yn cael eu cynnal gan wasanaethau, ond eu rheoli gan y tîm gwasanaethau adeiladu canolog. Mae'r tîm yma yn helpu i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi datblygu canllawiau clir i gynorthwyo rheolwyr safle ac ysgolion, ac maent yn egluro cyfrifoldebau'r ganolfan gorfforaethol a chyfrifoldebau deiliad yr adeilad mewnol o safbwynt yr eiddo.

**11.** Mae'r Cyngor yn ymwybodol o nifer o risgiau i'r gweithlu o safbwynt rheoli asedau, sy'n cynnwys achosion o golli arbenigedd, llai o staff yn yr adran ystadau, ac anawsterau wrth geisio llenwi rhai swyddi gwag. Mae'n ystyried opsiynau i leihau'r risgiau wrth symud ymlaen.

## Mae dull rhagweithiol y Cyngor o weithredu'n cynnwys cymell cymunedau i ymwneud â'r broses o drosglwyddo asedau a darparu gwasanaethau

**12.** Mae'r Cyngor wedi dysgu o'r anawsterau y daeth ar eu traws yng nghyswllt yr achosion o gau asedau, a gynigiwyd dan Gam 1 ei gynlluniau lleihau costau yn 2014. Mae wedi mabwysiadu dull newydd, mwy rhagweithiol o weithredu o'r enw 'RhCT Gyda'n Gilydd'. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned yn rhan o'r broses hon er mwyn gweld ym mhle y gallai gwasanaethau a/neu asedau gael eu darparu a/neu'u rheoli gan y gymuned yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn ceisio ymateb yn gadarnhaol i ddatganiadau o ddiddordeb gan grwpiau cymunedol/mudiadau'r trydydd sector ac mae'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol drwy Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i'r sawl sy'n cyflwyno datganiadau o ddiddordeb, gyda'r bwriad o gefnogi cynlluniau ble bynnag y bo modd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Gymunedol i ddarparu rhywfaint o gymorth ariannol i brosiectau yn y tymor byr.

**13.** Mae'r dull o reoli'r fenter hon yn esblygu, ond bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ei ddiwylliant trefniadaethol a'i systemau/gweithdrefnau mewnol yn gydnaws â'r dull gweithredu newydd a'u bod yn ymateb iddo. Yn ogystal, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo strategaeth ar gyfer ymateb i achosion lle gallai gwasanaethau/asedau fethu â llwyddo ar ôl trosglwyddo cyfrifoldeb i'r gymuned. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo fwy o waith i'w wneud i ddatblygu'r fenter 'RhCT Gyda'n Gilydd' a gwella'r modd y mae'n ymgysylltu â chymunedau.

## Nid yw'r trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch perfformiad yn rhoi darlun cynhwysfawr i aelodau etholedig ac aelodau'r uwch-dîm rheoli corfforaethol o'r modd y caiff asedau'r Cyngor eu rheoli

**14.** Mae'r adran ystadau'n casglu amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad gan gynnwys data ynghylch y canlynol: derbyniadau cyfalaf, gwarediadau, arolygon cyflwr a deiliadaeth. Mae'r adran ystadau hefyd yn casglu data ynghylch rheoli ynni, a ddefnyddir i werthuso opsiynau buddsoddi i arbed yn y rhaglen lleihau carbon. Mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredol i reoli ei raglen lleihau carbon gyda buddsoddiad o £912,000 yn 2015-16, ac amcangyfrifir y bydd hynny'n cynhyrchu arbedion blynyddol o £154,000.

**15.** Adroddir ynghylch gwybodaeth am berfformiad o safbwynt rheoli ynni wrth y Cabinet ac wrth y Pwyllgor Craffu ar Gyllid a Pherfformiad, yn rhan o'r adroddiad ar berfformiad corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r aelodau etholedig a'r uwch-reolwyr corfforaethol yn cael set gynhwysfawr o ddata ynghylch perfformiad ar gyfer y modd y caiff asedau eu rheoli, er mwyn monitro cynnydd o ran rheoli asedau neu er mwyn helpu i lywio penderfyniadau.

# Cynnig ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ddatblygu dulliau o gyflwyno darlun cynhwysfawr i uwch-reolwyr ac aelodau etholedig o'r modd y caiff ei asedau eu rheoli, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth barhaus a llywio penderfyniadau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru